

# Ydi'r balerina binc yn dawnsio yn eich gardd chi?

Gareth Wyn Griffith a Gary Easton

Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Prifysgol Cymru, Aberystwyth SY23 3DD, gwg@aber.ac.uk



*Hygrocybe calyptriformis*

Nid yw'r ffyngau wedi denu llawer o sylw gan y Cymry yn hanesyddol, fel y gwelir o brinder yr enwau cyffredin amdanynt. Er hynny, mae'r ffaith bod cymaint o dirwedd Cymru (tua 70%) yn lastir lled-naturiol wedi arwain at ddiddordeb cynyddol yn y ffyngau sy'n byw yn y cynefinoedd hyn. Mae sôn bod nifer mawr o Almaenwyr yn ymweld â'r Canolbarth er mwyn casglu madarch hud (*Psilocybe semilanceata*). Efallai y dylai'r Bwrdd Croeso ymdrechu i hybu'r agwedd hon ar dwristiaeth! Yn ogystal, darganfuwyd yn ddiweddar genws newydd o ffwng yn ardal Aberystwyth gyda'r enw *Cyllumyces aberensis*. Y rheswm bod y ffwng hwn wedi osgoi sylw cyhyd yw ei fod yn byw o fewn rwmn gwartheg ac yn tyfu i lai na milimetr o faint, ond eto mae'n

hanfodol bwysig i'r fuwch gan ei fod yn gallu torri i lawr seliwlos o'r borfa.

Os ymwelwch â glastiroedd sydd heb eu hail-hadu neu eu gwrteithio yn ystod yr hydref (o Awst hyd Rhagfyr), mae'n debyg iawn i chi ddod ar draws y capiau cŵyr, sef y madarch lliwgar (coch, gwyn, melyn, gwyrdd, piws, pinc) seimllyd sy'n perthyn i'r genws *Hygrocybe*. O safbwynt Ewropeaidd, mae capiau cŵyr Cymru'n bwysig iawn gan eu bod mor gyffredin. Yn yr Iseldiroedd dim ond tua 200 hectar o 'lastir capiau cŵyr' sy'n bodoli bellach gan fod cymaint o amaethyddiaeth dwys yno. Gan fod nifer helaeth o lastiroedd Cymru ar lethrau neu'n anghysbell, maent wedi cael eu rheoli mewn dull helaeth iawn a heb gael eu haredig na'u gwrteithio. Mae ambell i fynwent a lawnt hirsefydlog

yn cynnal nifer mawr o'r capiau cŵyr. Yr enwocaf yw lawnt Llanerchaeron yng Ngheredigion. Darganfuwyd 34 rhywogaeth (o'r tua 40 rhywogaeth Ewropeaidd) mewn ardal o lai na 0.25 ha. O ganlyniad, dynodwyd lawnt Llanerchaeron a hefyd Disgwylfa (bannau Brycheiniog) yn SSSI ar sail eu ffyngau.

Mae'n debyg bod nifer ohonoch heb sylwi rhyw lawer ar y capiau cŵyr yn y gorffennol. Felly, mae cyfle dros y misoedd nesaf i chi gymryd rhan yn arolwg y mudiad Plantlife ([www.plantlife.org.uk/](http://www.plantlife.org.uk/)) i gasglu gwybodaeth am eu dosbarthiad. Y balerina binc (*Hygrocybe calyptriformis*) yw un o'r delaf a'r hawsaf i'w hadnabod (llun 1). Fe'i hystyrir yn fadarchen brin iawn ond mae'n bosibl bod hyn yn ganlyniad i'r





*Hygrocybe spadicea*

prinder o bobl sydd wedi chwilio amdani. Felly os y gwelwch hi, cofiwch sôn wrth Plantlife trwy eu tudalennau gwe (neu wrthym ni) gan nodi'r lleoliad, dyddiad ayyb. Y rhywogaeth brin arall yw *Hygrocybe spadicea* (llun 2; llai nag 20 safle ym Mhrydain, 5 ohonynt yng Nghymru).

Un cwestiwn sydd wedi codi yw pam mae'r capiau cŵyr mor gysetlyd ynglŷn â'u cynefin. Trwy ein hymchwil yn Aberystwyth mae'n ymddangos eu bod yn sensitif iawn i nifer o arferion amaethyddol, yn arbennig gwrteithio a chalchu (er eu

bod yn ddigon cyffredin ar lastiroedd calchog). Maent yn ffynnu mewn priddoedd gwael gan eu bod yn gallu defnyddio nitrogen o'r hwmws ac yn methu cystadlu â'r ffyngau eraill mewn priddoedd mwy maethlon. Maent hefyd yn hirhoedlog ac yn tyfu i ffurfio cylchoedd tylwyth teg hyd at 10 m o ddiamedr. Anaml y ceir capiau cŵyr ar borfeydd sydd wedi'u haredig o fewn sawl degawd. Felly mae dyfodiad y tractor a gwrteithiau artiffisial

ers y rhyfel wedi bod yn her sylweddol iddynt. Trwy gyllid gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru, rydym hefyd yn arolygu dros 50 o lastiroedd pwysicaf Cymru er mwyn darganfod a ydi'r capiau cŵyr yn ymateb i aflonyddwch ecolegol yn yr un ffordd â phlanhigion a phryfed prin. Y bwriad yw rhannu unrhyw wybodaeth newydd trwy safle gwe y Capiâu Cŵyr (<http://www.aber.ac.uk/capcwyr>). Yn y cyfamser, cofiwch chwilio amdanynt a pheidiwch â gwrteithio eich lawnt!

Gareth Wyn Griffith a Gary Easton

Ydi'r balerina binc yn dawnsio yn eich gardd chi?

*Y Naturiaethwr* (2003), 2(13), pp. 48-49.

